Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 28 Chwefror 2022

Rhif Union: 01824 712589

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 4 MAWRTH 2022** am **10.00 am** trwy **FIDEO-GYNADLEDDA**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL Y RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Cael cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2021 (copi ynghlwm).

**5 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a Chynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**6 HYFFORDDIANT MOESEG A SAFONAU** (Tudalennau 13 - 42)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro ynglŷn a trefniadau a fydd yn cael eu gwneud i hyfforddiant aelodau newydd ac sy'n dychwelyd ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 (yr Etholiadau) mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad (copi ynghlwm).

**7 CYNHADLEDD SAFONAU 2022** (Tudalennau 43 - 46)

Derbyn adroddiad gan Swyddog Monitro yn hysbysu'r Pwyllgor o gynnwys y Gynhadledd Safonau a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022 (copi ynghlwm).

**8 Y BROSES O RECRIWTIO AELODAU ANNIBYNNOL PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 47 - 50)

Derbyn adroddiad gan Swyddog Monitro ynglŷn â'r broses o recriwtio aelodau annibynnol Pwyllgorau Safonau (copi ynghlwm).

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 51 - 54)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

**10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar gyfer 17 Mehefin.

**RHAN 2: EITEM CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf), ei datgelu.

**11 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 55 - 66)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n rhoi trosolwg o gwynion a wnaed yn erbyn aelodau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AEOLODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes (Is-Gadeirydd), Anne Mellor a/ac Peter Lamb

Aelod Cyngor Tref / Cymuned
Gordon Hughes

Cynghorwyr Sir
Y Cynghorydd Paul Penlington
Y Cynghorydd Andrew Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Y PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd dros fideo gynadledda, Ddydd Gwener, 3 Rhagfyr am 10am.

## YN BRESENNOL

Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes (Is-gadeirydd) a Peter Lamb yn ogystal â'r Cynghorydd Gordon Hughes.

**Arsylwi -** Y Cynghorydd Gwyneth Ellis.

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SW yn cynnal y cyfarfod) (RTJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Andrew Thomas, Paul Penlington ac Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau, Anne Mellor.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi i'w hystyried.

Materion yn Codi -

- Diolchodd y cadeirydd i staff gweinyddol y Pwyllgor am safonau uchel cyson eu cofnodion, a oedd wedi cael eu llunio pan fu'n cadeirio'r pwyllgor.
- Tudalen 7 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Trafododd y pwyllgor Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau ac a oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi eu trafod? Dywedodd y Swyddog Monitro (SM) wrth y pwyllgor nad oedd y mater wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, serch hynny, byddai'n cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor hwnnw ym mis Ionawr.
- Tudalen 8 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Gofynnwyd i'r SM a oedd ystyriaeth bellach wedi cael ei gwneud i friffiau cyn cyfarfod. Ymatebodd y SM, gan nodi y gallai dod ag adroddiad gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022.

***PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 fel cofnod cywir.*

## 5 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i aelodau i ddiweddaru'r pwyllgor ar unrhyw bresenoldeb mewn cyfarfodydd.

Nid oedd gan aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol yn y cyfarfod unrhyw beth i'w rannu. Roedd yn farn gyffredin ymysg yr aelodau bod yr hinsawdd sydd ohoni gyda'r pandemig wedi gwneud mynd i gyfarfodydd eraill yn anodd.

***PENDERFYNWYD** nodi'r arsylwadau a'r trafodaethau uchod.*

## 6 CYNHADLEDD SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) ddiweddariad ynghylch y Gynhadledd Safonau. Roedd y digwyddiad yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn, gyda chynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru, ynghyd â chynghorau cymuned, aelodau annibynnol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Nododd y SM bod y gynhadledd wedi cael ei gohirio oherwydd y pandemig. Dyddiad newydd y digwyddiad yw 9 Chwefror 2022, a bydd yn cael ei gynnal ar-lein. Manteision digwyddiad ar-lein yw na fyddai cyfyngiad ar nifer y cyfranogwyr. Y Fframwaith Moesegol newydd fyddai'r prif bwnc trafod.

Wrth gloi, dywedodd y SM wrth y pwyllgor y byddai'r Gynhadledd yn para oddeutu 6 awr, ac os oedd unrhyw aelod yn dymuno bod yn bresennol yn y cyfarfod, a fyddant cystal â hysbysu'r SM, a fyddai'n anfon eu manylion i'r trefnydd.

***PENDERFYNWYD** bod aelodau'n nodi'r wybodaeth ynghylch y Gynhadledd Safonau.*

## 7 ADOLYGIAD PENN O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar Adolygiad Penn o'r Fframwaith Safonau Moesegol i'r aelodau (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Mae'r Adolygiad wedi gwneud sawl argymhelliad mewn perthynas â'r fframwaith moesegol. Nid oedd yn glir pa un o'r rhain fyddai'n cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas yr adroddiad oedd ceisio barn y pwyllgor ar yr adolygiad cyn i Lywodraeth Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r argymhellion yn y dyfodol.

Rhoddodd y SM gefndir yr adolygiad i'r pwyllgor. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i gomisiynu adolygiad annibynnol o'r fframwaith safonau moesegol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Sefydlwyd y fframwaith moesegol presennol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac nid yw wedi newid llawer ers hynny gan eithrio rhai mân ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad.

Pwrpas yr Adolygiad oedd sicrhau bod y fframwaith yn parhau i ateb y diben, a'i fod yn agored a thryloyw, a'i fod yn ennyn hyder pawb sydd ynghlwm â'r fframwaith.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Mr. Richard Penn, cyn brif weithredwr awdurdod lleol i ymgymryd ag Adolygiad, gyda'r nod o adrodd i Weinidogion Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin 2021. Y bwriad oedd gwneud unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt cyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Byddai'r Adolygiad yn cynnwys:

- archwiliad o'r Codau Ymddygiad a fabwysiedir gan awdurdodau;
- dadansoddiad o effeithlonrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny.
- a oedd y fframwaith yn parhau i ateb y diben;
- rôl y Pwyllgorau Safonau;
- dadansoddiad o'r trefniadau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i gefnogi aelodau a staff;
- ystyriaeth o'r cosbau presennol ac a ydynt yn parhau i fod yn addas.

Canfyddiad cyffredinol yr Adolygiad oedd bod y fframwaith yn ateb y gofyn ac nad oedd angen gwneud unrhyw addasiadau sylweddol. Mae'r Adolygiad yn awgrymu y gallai mân addasiadau a diwygiadau i'r fframwaith presennol arwain at lai o gwynion lefel isel a lleihau'r angen am ymchwiliadau ffurfiol yn sylweddol.

Mae'r adolygiad wedi arwain at gymysgedd o argymhellion a datganiadau dan benawdau ar wahân.  Y penawdau hyn oedd:

- Archwiliad o Godau Ymddygiad yr holl awdurdodau gofynnol yn erbyn y Cod Enghreifftiol er mwyn nodi unrhyw amrywiadau lleol.
- Dadansoddiad o effeithlonrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny.
- Ystyried a yw'r fframwaith yn dal i fod yn addas i'r diben, gan gynnwys a yw'r deg egwyddor ymddygiad yn dal i fod yn berthnasol ac a oes angen i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiweddaru. Byddai hyn yn cynnwys nodi meysydd lle y gellid/dylid gwneud gwelliannau i'r trefniadau presennol.
- Newidiadau i bwerau a phrosesau Panel Dyfarnu Cymru.
- Ystyried rôl Pwyllgorau Safonau, gan gynnwys eu rôl o ran Cynghorau Tref a Chymuned, ac a yw sefydlu is-bwyllgorau wedi cael effaith ar y broses o gefnogi Cynghorau Cymuned ac ymdrin â chwynion.

Trafododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol yn fwy manwl –

- Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol, ac a oedd hyn yn ymwneud a Chynghorwyr Sir, neu a oedd y fframwaith yn golygu bod Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned yn derbyn hyfforddiant gorfodol hefyd. Eglurodd y SM y byddai pob cynrychiolydd etholedig yn cael hyfforddiant.

- Amlinellwyd penderfyniad lleol gan y pwyllgor, a gan ymateb, dywedodd y SM petai ragor o faterion yn cael eu cyfeirio at benderfyniad lleol, byddai problem o ran adnoddau yn debygol, h.y. llwythau gwaith swyddogion monitro.
- Hysbysodd y SM y pwyllgor bod Panel Dyfarnu Cymru yn teimlo y byddai'n fuddiol petai ganddynt ragor o gosbau ar gael iddynt petai honiad o dorri rheolau'r cod ymddygiad yn cael ei wneud.
- Amlygodd y pwyllgor y cyfryngau cymdeithasol, a cytunwyd na ddylai aelodau bostio gwybodaeth ansensitif, neu ei rhannu fel arall.
- Awgrymodd y pwyllgor y byddai rhagor o hyfforddiant yn lliniaru cwynion, oherwydd byddai pobl yn llai tebygol o dorri'r cod ymddygiad. Cytunodd y SM gyda chael hyfforddiant ychwanegol, serch hynny, roedd yn teimlo pan roedd pobl yn trafod eitemau cynhennus, byddai emosiwn yn amlwg. Awgrymodd y SM y gellir cynnal trafodaethau pellach gydag arweinwyr y pleidiau gwleidyddol ynghylch ymddygiad, ac yna byddai'r neges yn treiddio trwy'r pleidiau.

Hysbysodd y SM y pwyllgor bod yr Ombwdsmon wedi canmol y pwyllgor ar wrandawiadau diweddar, ac ymddygiad yr holl bartïon.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau'n ystyried Adolygiad Penn o'r Fframwaith Safonau Moesegol ac yn cytuno i'r argymhellion ynddo.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

- Mawrth 2022 - adroddiad yn dilyn y Gynhadledd Safonau a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022.
- Mawrth 2022 - adroddiad Cod Ymddygiad Gweithwyr i'w gyflwyno gerbron y pwyllgor. Serch hynny, dywedodd y SM efallai bydd yr adroddiad yn cael ei oedi nes cyfarfod Mehefin 2022.
- Mehefin 2022 - Cynnwys penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd.
- Medi 2022 - Adroddiad Blynyddol Safonau i'r Cyngor.

Cododd y SM y mater o gyn gyfarfodydd ac awgrymodd cadw cyn cyfarfod rhaglen gwaith i'r dyfodol ar y cyd gyda'r rhaglen sydd eisoes yn bodoli. Er mwyn sicrhau nad oes gwaith a fyddai'n cael ei fethu, byddai'r pwyllgor yn ymwybodol o unrhyw friff/sesiynau hyfforddiant cyn cyfarfod. Cytunodd y pwyllgor gyda'r awgrymiad.

***PENDERFYNWYD*** **yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau.**

## 9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar gyfer 4 Mawrth 2022 am 10:00am.

***PENDERFYNWYD** dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 yn Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 10 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i roi trosolwg i'r Aelodau o'r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ionawr 2018.

Siaradodd y Swyddog Monitro am gwynion parhaus a gyflwynwyd, gan roi manylion amlinellol natur y cwynion a wnaed a'r camau a gymerwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 4 Mawrth 2022 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Hyfforddiant Moeseg a Safonau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y trefniadau a fydd yn cael eu gwneud i hyfforddiant aelodau newydd ac sy'n dychwelyd ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 (yr Etholiadau) mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynigion ar gyfer darparu hyfforddiant i aelodau newydd ac sy'n dychwelyd ar ôl yr Etholiadau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn rhoi sylwadau ar y cynigion ar gyfer darparu hyfforddiant fel ag amlinellwyd yn yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Un o rolau'r Pwyllgor Safonau yw cynghori a threfnu hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar y Cod Ymddygiad. Cynhelir yr Etholiadau ar 5 Mai 2022 a bydd rhaid i bawb sy'n cael eu hethol arwyddo addewid y byddant yn cadw at delerau'r Cod Ymddygiad. Mae'r addewid hwn yn ffurfio rhan o'r datganiad derbyn swydd y mae'n rhaid i bob aelod ei arwyddo cyn iddynt allu cyflawni eu swydd fel Cynghorydd.

4.2. Mae felly yn hollbwysig bod aelodau yn cael cyfle i gael hyfforddiant ar ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad cyn gynted â phosibl ar ôl eu hetholiad.

4.3. Yn 2017 cynhyrchodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru set gyffredin o ddeunyddiau hyfforddiant i'w defnyddio gan yr holl gynghorau yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2017. Mae copi o'r deunyddiau hynny wedi ei atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

4.4. Disgwylir y bydd proses tebyg yn cael ei ddilyn eleni ac ar hyn o bryd mae CLlLC yn paratoi, mewn ymgynghoriad â Swyddogion Monitro, set gyffredin o ddeunyddiau hyfforddiant i'w defnyddio yn dilyn yr Etholiadau. Nid yw'r deunyddiau hynny wedi'u cadarnhau eto ar gyfer eu cyhoeddi.

4.5. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys y Cod Ymddygiad a moeseg, yn cynnwys cwrteisi a pharch. Mae pecyn e-ddysgu hefyd yn cael ei ddatblygu.

4.6. Cynigir bod y gweithdy Cod Ymddygiad yn cael ei gynnal ar gyfer Cynghorwyr Sir yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl yr Etholiadau. Bydd rhaglen o ddigwyddiadau yn cael ei ddarparu i aelodau Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

4.7. Fel rhan o'i weledigaeth ar gyfer y Cyngor, mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu pum egwyddor a fydd, ynghyd â gwerthoedd y Cyngor, yn tanategu'r math o ddiwylliant sefydliadol y mae eisiau ei ddatblygu.

4.8. Yr egwyddorion hyn ydi y bydd y Cyngor yn

- Parhau i ddatblygu ein diwylliant ein hunain, Dull Sir Ddinbych
- Bod yn Gyngor sy'n agosach at ein cymunedau
- Bod â disgwyliadau perfformiad clir
- Hyrwyddo perthnasau Swyddog/Aelod cadarn
- Cefnogi a datblygu ein staff

4.9. Yn sail i'r egwyddorion hyn y mae gwerthoedd y Cyngor sef:

- Gonestrwydd
- Parch
- Undod

- Balchder

4.10 Bydd yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i aelodau yn dilyn yr etholiadau hefyd yn cynnwys yr egwyddorion a'r gwerthoedd hyn a bydd yn ymgorffori cyfeiriadau at Brotocol y Cyngor ar Berthnasau Aelod/Swyddog.

4.11 Yn ychwanegol at yr hyfforddiant ar foeseg a safonau, mae CLILC, gyda'r rhwydwaith o Benaethiaid y Gwasanaethau Democrataidd, yn datblygu deunyddiau hyfforddiant cyffredin ar nifer o bynciau. Y rhai sydd fwyaf perthnasol i'w cynnal yw deunyddiau hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion a hyfforddiant penodol ar y Cyfryngau Cymdeithasol.

4.12. Yn ychwanegol at y cyfleoedd hyfforddiant ffurfiol bydd y Swyddog Monitro yn gallu rhoi cymorth anffurfiol i aelodau newydd ac sy'n dychwelyd ar sail barhaus mewn perthynas â materion ymddygiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes gan y penderfyniad unrhyw effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd diwylliant mewnol cadarn sy'n hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad a moeseg a pherthnasau cadarn rhwng aelodau a swyddogion yn rhoi amgylchedd a fydd yn ffafriol i wneud penderfyniadau a llywodraethu da.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan staff sy'n cael eu hariannu drwy'r cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chraffu.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau yn Adran 6 y bydd goblygiadau adnoddau'r adroddiad hwn yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau presennol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y gall aelodau nad ydynt wedi'u hyfforddi'n ddigonol ar ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad ei dorri'n anfwriadol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 8.6.5 o Gyfansoddiad y Cyngor.

# Rhaglen Gyflwyno'r Cynghorwyr 2012

WLGA • CLlLC

## Moeseg a safonau

© 2017 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
Ar gyfer awdurdodau sy'n perthyn i WLGA. Chaiff neb arall ddefnyddio'r deunydd hwn heb gael caniatâd WLGA ymlaen llaw



Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Llywodraethu'n foesegol

I fod yn effeithiol, rhaid i fyd llywodraeth leol ymddwyn yn ôl safonau uchel fel y bydd pawb yn hyderus ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Goblygiadau i gynghorwyr

- ‘Penderfynodd y pwyllgor fod y cynghorydd wedi gweithredu’n groes i’r côd ymddwyn ac y dylai gael ei wahardd am fis calendr.’
- ‘Roedd y cynghorydd wedi methu â pharchu ac ystyried pobl eraill. Cytunodd y pwyllgor y byddai’n cyhoeddi ei ganfyddiadau ac yn argymell y dylai’r cyngor geryddu’r aelod yn ffurfiol.
- ‘Torri côd ymddwyn y cynghorwyr trwy fygwth un o weithwyr y cyngor.’

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLlLC

# Ymarfer

Holiadur

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

## Eich cyfrifoldebau

Mae gofyn statudol ichi weithredu'n foesegol yn ôl Deddf 'Llywodraeth Leol' 2000

Mae Gorchymyn Côd Ymddygiad Safonol Awdurdodau Lleol Cymru 2008 yn gofyn i bob awdurdod sefydlu côd ymddwyn sydd wedi'i seilio ar yr un wladol

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Fframwaith moesegol

**Pwyllgor Nolan ym 1997 - tarddiad Fframwaith Safonau Bywyd Cyhoeddus**

**A chithau'n gynghorydd, rhaid cadw'r egwyddorion hyn mewn cof:**

- Bod yn anhunanol
- Gonestrwydd
- Uniondeb a phriodoldeb
- Dyletswydd i hybu'r gyfraith
- Gwarchod
- Penderfynu'n wrthrychol
- Cydraddoldeb a pharch
- Agwedd agored
- Atebolrwydd
- Arwain

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Côd ymddwyn

- Dangos sut mae defnyddio'r fframwaith moesegol
- Chewch chi ddim bod yn gynghorydd heb lofnodi datganiad eich bod yn ei dderbyn nac addo trwy lythyr y byddwch chi'n cadw ato
- O fethu â chadw ato, bydd modd eich gwahardd rhag bod yn gynghorydd
- Mae'n berthnasol i gynghorwyr Cymru i gyd ac eithrio aelodau awdurdodau heddlu, a ddylai weithredu yn ôl côd ymddwyn Lloegr

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Mae'n berthnasol i chi pan foch chi…

- Yng nghyfarfodydd 'swyddogol' yr awdurdod
- Mewn unrhyw gyfarfod lle mae rhai o gynghorwyr neu swyddogion yr awdurdod yn bresennol
- Yn gweithredu ar ran yr awdurdod (neu'n honni/ cyfleu'r argraff eich bod yn gwneud hynny)
- Yn cyflawni gwaith yr awdurdod yn rhinwedd eich swydd yn gynghorydd ac ar ran yr awdurdod
- Yn cyflawni gorchwyl swyddogol
- Yn cynrychioli'r awdurdod mewn corff arall oni bai bod gan y corff hwnnw ei gôd ei hun neu reolau cyfreithiol sy'n groes i'ch côd chi

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# A hefyd…

Unrhyw bryd os ydych chi'n:

- Ymddwyn mewn modd sy'n debygol o ddwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod
- Defnyddio'ch statws i ennill mantais neu osgoi anfantais er eich lles chi neu er lles pobl eraill
- Camddefnyddio adnoddau'ch awdurdod

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Rheolau cyffredinol y côd

- Hybu cydraddoldeb
- Parchu pobl a rhoi pob ystyriaeth i'w hanghenion
- Peidio ag erlid pobl nac aflonyddu arnyn nhw
- Gadael i swyddogion weithredu'n amhleidiol
- Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Peidio â rhwystro neb rhag gweld gwybodaeth

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Rheolau cyffredinol y côd

- Peidio â dwyn anfri ar y swydd a'r awdurdod
- Tynnu sylw at achosion o dorri'r côd
- Peidio â chwyno'n flinderus
- Cydweithredu ag ymchwiliadau
- Peidio â defnyddio'ch swydd yn amhriodol
- Peidio â chamddefnyddio adnoddau'r awdurdod

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Rheolau cyffredinol y côd

- Dod i benderfyniadau'n wrthrychol
- Ystyried cyngor mae swyddogion yn ei roi ichi a rhoi rhesymau os nad ydych chi'n ei dderbyn
- Cydymffurfio â'r gyfraith a rheolau'r awdurdod ynglŷn â threuliau
- Peidio â derbyn unrhyw roddion, cymwynas na chroeso fyddai'n arwain at ddisgwyl ichi wneud rhywbeth neu'n cyfleu'r argraff honno

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Buddiannau

Dylai pobl fod yn hyderus eich bod yn penderfynu er eu lles nhw, nid er eich lles chi!

Felly, os ydych chi'n ymwneud â mater mewn unrhyw ffordd, rhaid ichi ddatgan hynny.

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Buddiannau personol

Mae buddiannau personol pan fydd penderfyniad yn ymwneud â chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn dda, neu'n debygol o wneud hynny, ynghylch:

- Eich swydd neu'ch busnes
- Eich cyflogwr neu gwmni rydych chi'n bartner neu'n gyfarwyddwr ynddo
- Rhywun sydd wedi helpu i dalu'ch costau yn yr etholiad neu'ch treuliau wedyn
- Unrhyw gwmni a chanddo adeiladau neu dir yn eich bro, os oes gennych chi ynddo gyfrannau gwerth dros £25,000 neu dros 1% o gyfrannau'r cwmni i gyd

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

– Unrhyw gytundeb mae'ch awdurdod yn ei sefydlu gyda chwmni rydych chi'n bartner, yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr ynddo
– Unrhyw dir rydych chi'n ymwneud ag e yn ardal eich awdurdod
– Unrhyw dir mae'ch awdurdod yn ei roi ar osod i gwmni rydych chi'n bartner, yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr ynddo
– Unrhyw dir yn ardal eich awdurdod mae gyda chi drwydded i fod arno am o leiaf 28 diwrnod

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

– Unrhyw gorff mae’ch cyngor wedi’ch penodi neu’ch enwebu i wasanaethu ynddo.

– Unrhyw awdurdod neu gorff cyhoeddus sy’n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus eu natur, elusen, barn neu bolisi cyhoeddus, undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol, cymdeithas neu glwb preifat yn ardal eich awdurdod lle rydych chi’n aelod neu’n rheolwr.

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# ‘Rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda’

Eich cyfaill gorau, a‘ch gelyn gwaethaf...

- Cyfeillion agos
- Cydweithiwr mae gyda chi gysylltiadau cryf â nhw
- Pobl rydych chi'n gysylltiedig â nhw trwy fusnes
- Perthnasau agos
- Rhywun y buoch chi mewn anghydfod ag e

- Ond nid pobl o'ch cydnabod, pobl sy'n perthyn ichi o bell na'r rhai rydych chi'n cwrdd â nhw trwy'ch gwaith

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Beth mae rhaid ei wneud os oes budd personol gyda chi?



- Rhaid ei ddatgan ar lafar mewn cyfarfod
- Rhaid ei ddatgan wrth ysgrifennu neu sôn am y pwnc y tu allan i gyfarfod
- Rhaid llenwi ffurflen datgan buddiannau
- OND mae gyda chi hawl i gymryd rhan yn y trafodaethau a phleidleisio oni bai bod <u>budd niweidiol</u>

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Buddiannau niweidiol

Unrhyw fuddiannau personol y byddai'r cyhoedd yn eu hystyried yn rhai sy'n debygol o effeithio ar eich barn neu'ch gallu i fod yn wrthrychol, er enghraifft:

- Os yw'ch merch yn byw wrth ymyl safle mae bwriad i godi tai arno
- Os yw'ch mab yn mynychu ysgol mae bwriad i'w chau

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Beth mae rhaid ei wneud os oes gyda chi fuddiannau niweidiol?

Rhaid ichi adael y cyfarfod cyn y drafodaeth

Chewch chi ddim defnyddio pwerau sydd wedi'u dirprwyo

Chewch chi ddim ceisio dylanwadu ar y penderfyniad

Chewch chi ddim siarad na rhoi tystiolaeth ysgrifenedig

**ONI BAI**

bod Pwyllgor y Safonau wedi gadael ichi wneud hynny

bod hawl i ddinasyddion siarad neu roi tystiolaeth (ar yr amod eich bod chi'n gadael ar ôl siarad)

bod gofyn ichi fynd gerbron pwyllgor craffu

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Ymarfer ynglŷn â buddion

Yn eich grwpiau, ystyriwch y sefyllfaoedd ac ateb y cwestiynau

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Dod i farn neu benderfyniad ymlaen llaw

**Barnu ymlaen llaw** – mae gennych chi farn am y pwnc ond heb arddel safbwynt eto

**Penderfynu ymlaen llaw** – rydych chi wedi dod i benderfyniad na all unrhyw ddadl ei newid

A chithau'n ymwneud â phenderfyniad, dylech chi osgoi cyfleu'r argraff eich bod wedi penderfynu sut byddwch chi'n pleidleisio yn y cyfarfod

“Mae barn gyda fi, ond hoffwn i wrando ar yr holl ddadleuon cyn dod i benderfyniad.”





# Gogwydd

- Pan fo’n ymddangos bod gogwydd, rhaid cofio y gallai hynny effeithio ar y penderfyniad achos y bydd modd codi amheuon wedyn.  Dyma achos fu gerbron yr Uchel Lys: *Kelton v Wiltshire*
- Cafodd caniatâd cynllunio ar gyfer codi tai ei ddileu am fod aelod o bwyllgor cynllunio wedi amlygu gogwydd.

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Trefniadau cadw llygad

- Swyddog monitro
- Pwyllgor safonau
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Panel Dyfarnu Cymru

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Pe baech chi'n torri'r côd...

- Cwyn i'r Ombwdsmon
- Os yw o'r farn ei bod yn dal dŵr, bydd yn ei rhoi i bwyllgor safonau'r awdurdod neu i dribiwnlys mae Panel Dyfarnu Cymru wedi'i sefydlu
- O brofi'r gwyn, bydd amrywiaeth o gosbau rhwng dim byd o gwbl a'ch gwahardd am bum mlynedd
- Hyd yn oed ar ôl cael eich gwahardd, bydd y côd yn berthnasol o hyd!
- Cofiwch unrhyw weithdrefnau datrys lleol, hefyd

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Rhagor o wybodaeth

- Os nad ydych chi'n siwr, holwch swyddog monitro'r awdurdod

- Canllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

  http://www.ombudsman-wales.org.uk/

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 4 Mawrth 2022 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Cynhadledd Safonau 2022 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn trafod Cynhadledd Safonau 2022.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu aelodau'r Pwyllgor o gynnwys y Gynhadledd Safonau a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi gan y Pwyllgor.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Cyn pandemig Covid-19 trefnwyd Cynhadledd Safonau yn flynyddol ar gyfer aelodau annibynnol pwyllgorau safonau yng Nghymru. Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd yn sgil y pandemig, nid oedd yn bosibl cynnal cynhadledd.

4.2. Er mwyn ailsefydlu'r gynhadledd, cytunwyd y byddai cynhadledd o bell yn cael ei chynnal, a'i threfnu gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Cynhaliwyd y gynhadledd dros Zoom ar 9 Chwefror 2022. Thema'r gynhadledd oedd Adolygiad Annibynnol y Fframwaith Moesegol yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Richard Penn.

4.3. Aeth dros 100 o gyfranogwyr o Gymru gyfan i'r gynhadledd o bell. Agorwyd y gynhadledd gan Julia Hughes yn ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Safonau Sir y Fflint, a groesawodd y cyfranogwyr ar ran awdurdodau Gogledd Cymru.

4.4. Derbyniodd y gynhadledd anerchiad gan y prif siaradwr, Richard Penn, ac fe gyflwynodd prif ganfyddiadau ei adolygiad, ac yna fe atebodd gwestiynau gan y cyfranogwyr.

4.5. Yna, cyflwynodd gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru, Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr Democratiaeth Llywodraeth Leol i'r gynhadledd, mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'r fframwaith moesegol y gellir eu hystyried o ganlyniad 'r adolygiad, ac roedd cyfle i gyfranogwyr ofyn cwestiynau i ddilyn.

4.6. Derbyniodd y gynhadledd gyflwyniadau gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus, Nick Bennett; Paul Egan o Un Llais Cymru; ac Einir Young Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd, gyda phawb yn adlewyrchu ar yr adolygiad. Yna, cafwyd trafodaeth banel a Sesiwn Holi ac Ateb i'r cynrychiolwyr.

4.7. Bu i Julia Hughes gloi'r gynhadledd, a ddiolchodd i bawb oedd wedi cymryd rhan am gynhadledd lwyddiannus iawn.

4.8. Casgliad cyffredinol y gynhadledd oedd bod yr adolygiad o'r fframwaith wedi cael ei groesawu, ynghyd â'r canfyddiad nad oedd angen diwygio'r fframwaith yn llwyr. Mynegodd cynrychiolwyr eu diolch bod fframwaith wedi cael ei gynnal yng Nghymru, a'u dymuniad y dylai barhau gyda mân ddiwygiadau. Er bod cefnogaeth lethol ar gyfer egwyddor penderfyniad lleol, yn benodol mewn ymateb i'r nifer uchel o gwynion sy'n dod gan gynghorau tref a chymuned, soniwyd am rai o'r pryderon ynghylch yr adnoddau gofynnol er mwyn i swyddogion monitro allu mynd i'r afael â nifer sylweddol o gwynion os oedd disgwyl iddynt geisio datrys cwynion o'r fath.

4.9. Roedd y cyfranogwyr yn cytuno y dylai'r ymarfer da presennol a nodwyd ar ffurf Fforwm Safonau Gogledd a Chanolbarth Cymru gael ei ymestyn i fod yn Fforwm Safonau Cymru Gyfan.

4.10. Bydd y Swyddog Monitro'n rhoi adroddiad manylach, ar lafar o'r gynhadledd yng nghyfarfod y pwyllgor.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chraffu.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau arbennig yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen gwneud penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 4 Mawrth 2022 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Y broses o Recriwtio Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn trafod y broses o recriwtio aelodau annibynnol Pwyllgorau Safonau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu'r Pwyllgor o'r gofyniad i recriwtio aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau a'r broses sydd rhai ei dilyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn ardystio'r dull arfaethedig o recriwtio aelodau annibynnol y Pwyllgor.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 yn nodi'r darpariaethau o ran maint a chyfansoddiad pwyllgorau safonau. Mae'n rhaid i bwyllgorau safonau gael dim llai na phum aelod a ddim mwy na naw aelod.

4.2. Mae Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych (y Pwyllgor) yn cynnwys saith aelod. Mae'r Rheoliadau'n nodi pan fo aelodaeth pwyllgor safonau'n odrif, mae'n rhaid cael mwyafrif o aelodau annibynnol. Mae pedwar aelod annibynnol ar y Pwyllgor o ganlyniad i hynny. Mae gweddill y Pwyllgor yn cynnwys dau Gynghorydd Sir ac aelod o'r Cyngor Cymuned.

4.3. Gall aelodau annibynnol fod ar y Pwyllgor am hyd at ddau dymor. Mae’n bosib i gyngor ailbenodi aelod annibynnol ar ddiwedd eu tymor cyntaf, am dymor arall, heb orfod ailadrodd y broses recriwtio. Ym mis Mai 2021, ailbenododd y Cyngor Julia Hughes ac Anne Mellor am ail dymor, i ddod i ben ym mis Mai 2025.

4.4. Mae tymor cyntaf Peter Lamb yn y swydd ar fin dod i ben ym mis Mai 2022, a chynhigir bod adroddiad yn cael ei gymryd i’r Cyngor Sir yn ceisio ei ailbenodi am ail dymor.

4.5. Mae Cadeirydd y Pwyllgor, Ian Trigger, sy’n aelod annibynnol hefyd, ar fin gorffen ei ail dymor yn y swydd, sydd ar fin dod i ben ym mis Mai 2022. O ganlyniad, bydd angen i’r Cyngor gychwyn proses recriwtio ar gyfer aelod annibynnol. Mae’r Rheoliadau’n gofyn bod y swydd wag yn cael ei hysbysebu mewn dau bapur newydd lleol. Mae’n rhaid i’r Cyngor sefydlu panel o ddim mwy na phump, i gynnwys un cynghorydd cymuned ac un aelod lleyg o leiaf. Mewn ymarferion recriwtio blaenorol, gofynnwyd i’r Cyngor enwebu tri chynghorydd sir i fod ar y panel, yn ychwanegol at yr aelod lleyg a’r cynghorydd cymuned. Bydd y Panel yn cyfweld ymgeiswyr ac yn gwneud argymhelliad i’r Cyngor. Gofynnir i’r Cyngor benodi’r ymgeisydd a argymhellir.

4.6. Penodwyd cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor, Gordon Hughes, ar gyfer ei dymor cyntaf ym mis Chwefror 2018. Mae’n rhaid i dymor cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ddod i ben ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol yn dilyn ei benodiad neu ei phenodiad. Mae’n bosib i gynrychiolydd y Cyngor Cymuned wasanaethu ail dymor, ond mae’n rhaid iddynt barhau i fod yn gynghorydd dinas, tref neu gymuned. Cyn penodi cynrychiolydd o’r cyngor cymuned, mae’n ofyniad bod y Cyngor yn ymgynghori â chynghorau dinas, tref a chymuned yn yr ardal. Mae hon yn broses y gellir ei hystyried yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy’n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn helpu i ategu gwaith y Cyngor i weithredu ei swyddogaethau democrataidd.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae gan aelodau annibynnol hawl cyfreithiol i ffi ddyddiol ac ad-daliad costau teithio fel y nodir yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol bob blwyddyn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Bydd goblygiadau ariannol yr adroddiad hwn yn cael eu hariannu o ddyraniadau cyllideb bresennol

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn pennu y dylid cael pedwar aelod annibynnol. Y risg o beidio â phenodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau yw y gall llai o aelodau gynyddu'r tebygolrwydd na fydd gan y Pwyllgor gworwm.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 9

# Rhaglen Gwaith Pwyllgor Safonau

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Pwrpas yr adroddiad | Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **17 Mehefin 2022** | 1 | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau | Ddim yn berthnasol – mae'r eitem yn cael ei harwain gan aelodau o'r pwyllgor. |
| | 2 | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Rhoi gwybod i'r pwyllgor am y rhifyn diweddaraf o Goflyfr Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon. | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | 3 | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Ystyried Rhaglen Gwaith y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | 4 | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Darparu trosolwg i'r pwyllgor o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | 5 | Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd | Penodi cadeirydd ac is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | | | |
| **16 Medi 2022** | 1 | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau | Ddim yn berthnasol – mae'r eitem yn cael ei harwain gan aelodau o'r pwyllgor. |
| | 2 | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Rhoi gwybod i'r pwyllgor am y rhifyn diweddaraf o Goflyfr Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon. | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | 3 | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Ystyried Rhaglen Gwaith y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | 4 | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Darparu trosolwg i'r pwyllgor o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Gary Williams (Swyddog Monitro) |

# Rhaglen Gwaith Pwyllgor Safonau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 5 | Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Safonau | Derbyn adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | | | |
| **2 Rhagfyr 2022** | 1 | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau | N/A – the item is member of the committee led. |
| | 2 | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Rhoi gwybod i'r pwyllgor am y rhifyn diweddaraf o Goflyfr Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon. | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | 3 | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Ystyried Rhaglen Gwaith y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | 4 | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Darparu trosolwg i'r pwyllgor o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Gary Williams (Swyddog Monitro) |

# Rhaglen Gwaith Brifio Pwyllgor Safonau

***Sesiynau briffio i'w cynnal 20 munud cyn y Pwyllgor Safonau***

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Pwrpas yr adroddiad | Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **4 Mawrth 2022** | 1 | Gollyngiadau. | Rhoi diweddariad byr i aelodau ar y broses gollyngiad. | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | | | |
| **17 Mehefin 2022** | | | | |
| | | | | |
| **16 Medi 2022** | | | | |
| | | | | |
| **2 Rhagfyr 2022** | | | | |
| | | | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag